**CYD-BWYLLGOR CRAFFU DINAS-RANBARTH BAE ABERTAWE**

**(Remotely via Teams)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mawrth, 20 Gorffennaf 2021**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd R.James** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Cynghorwyr**: | A.Llewelyn, S.E.Freeguard P.Downing, J.Curtice, T.Baron, G.Morgan, D.Price a/ac J.Jones |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | R.Arnold, J.Lewis, P.Ryder, S.Curran, M.Shaw, J.Burnes and A.Thomas |

1. **CROESO A GALW'R RHESTR**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. **PENODI IS-GADEIRYDD**

Cynigiwyd, eiliwyd a chytunwyd mai'r Cynghorydd Saifur Rahaman, o Gyngor Castell-nedd Port Talbot, fyddai Is-gadeirydd Cyd-bwyllgor Craffu Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2021 yn wir ac yn gywir.

## 5. ACHOS BUSNES SGILIAU A THALENT

Daeth arweinydd y prosiect ar gyfer y Rhaglen Sgiliau a Thalent, Jane Lewis, i'r cyfarfod a rhoddodd drosolwg o'r achos busnes. Amlinellodd Ms Lewis gylch gwaith y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol. Mae'n sefydliad annibynnol a ariennir yn llwyr gan Lywodraeth Cymru i nodi anghenion sgiliau a bylchau sgiliau yn y rhanbarth. Nod y rhaglen yw creu cyfleoedd newydd a chynaliadwy a fydd yn cynhyrchu ffyniant i unigolion a busnesau yn Rhanbarth Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Cyflawnir hyn drwy ddatblygu llwybr sgiliau i bawb a chynllun peilot o ddarparu sgiliau lefel uchel yn ôl y galw a gwella sgiliau ar draws y pum thema allweddol. Y pum maes allweddol yw adeiladu, digidol, gweithgynhyrchu clyfar, iechyd a lles ac ynni. Wrth i'r rhaglen ddatblygu, gellir nodi meysydd newydd posib. Bydd y rhaglen hon yn dwyn ynghyd yr holl sgiliau y mae eu hangen ar draws portffolio'r Fargen Ddinesig ac yn mwyafu'r economi. Ar hyn o bryd nid oes gan y rhanbarth y sgiliau y mae eu hangen ar fuddsoddwyr o fewn y fargen. Bydd y rhaglen yn galluogi datblygu'r sgiliau ac yn caniatáu i bobl hefyd ennill cyflogau uwch yn y rhanbarth. Er y cydnabyddir na fydd y rhaglen yn datrys pob mater, bydd yn helpu i leihau'r bwlch rhwng unigolion heb unrhyw sgiliau a'r rheini sydd â lefelau sgiliau uwch.

Nod y rhaglen yw darparu o leiaf 2,200 o sgiliau ychwanegol a chefnogi datblygiad tua 14,000 o unigolion sydd â sgiliau lefel uwch (2-8) mewn 10 mlynedd. Creu 3,000 o gyfleoedd prentisiaeth newydd, i gynnwys lefel 3 hyd at brentisiaethau ar lefel radd. Gweithio gydag ysgolion a'r cwricwlwm newydd i ddatblygu llwybr clir o addysg yn yr ysgol a chynyddu nifer y disgyblion sy'n dilyn y pynciau STEM. Creu o leiaf ddwy Ganolfan Ragoriaeth o fewn sectorau penodol er mwyn datblygu'r rhanbarth fel yr "ardal orau" ar gyfer datblygiad a sgiliau. Mae gwella sgiliau'n allweddol i sicrhau y gellir cyflawni Prosiectau'r Fargen Ddinesig.

Er mwyn sicrhau y gellir cyflawni nodau'r Rhaglen, cynhelir dadansoddiad o'r bwlch sgiliau i nodi hyfforddiant ar gyfer sgiliau newydd nad yw'n cael ei ddarparu yn y rhanbarth ar hyn o bryd. Bydd y Rhaglen yn gweithio'n agos gyda'r prosiectau i nodi'r sgiliau y mae eu hangen a fframweithiau newydd y bydd angen eu cyflwyno.

Nododd Ms Lewis y risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Os bydd oedi cyn cymeradwyo'r rhaglen, gallai hyn arwain at oedi yn yr amserlen, a fyddai'n effeithio ar ddarparu hyfforddiant. Yna byddai'r gweithlu'n dod o'r tu allan i'r rhanbarth.

Gwerth y rhaglen yw £30 miliwn, gydag elfennau amrywiol o arian cyfatebol o fewn hyn. £10miliwn gan y Fargen Ddinesig a £4 miliwn o gyllid gan y sector preifat.

Mae'r Achos Busnes yn symud drwy'r broses gymeradwyo ar hyn o bryd. Mae'r pedwar awdurdod lleol wedi'i gymeradwyo. Cyflwynir yr Achos Busnes i'r Cydbwyllgor ar 29 Gorffennaf. Mae swydd Rheolwr y Rhaglen yn cael ei phenodi ar sail risg. Cyflwynir yr Achos Busnes i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar ddiwedd mis Gorffennaf.

Cadarnhaodd Ms Lewis fod y bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, fodd bynnag fe'i hariannir i wneud darn o waith, sy'n cyflwyno argymhellion iddyn nhw. Mae'r bartneriaeth yn gweithio i'r pedwar awdurdod lleol sy'n rhan o Dde-orllewin Cymru. Nod y bartneriaeth yw sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn deall beth yw'r materion lleol sy'n ymwneud â sgiliau.
Mae gan y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol 9 grŵp clwstwr a arweinir gan y diwydiant. Arweinir Bwrdd yr PDSR gan y sector preifat. Dywedwyd wrth yr aelodau eu bod yn gweithio gyda thros 2000 o sefydliadau i ddeall beth yw'r materion pan fyddant yn casglu gwybodaeth. Beth yw'r sgiliau y mae'r busnesau hyn yn eu nodi y mae angen i'r PDSR dynnu sylw Llywodraeth Cymru atynt ar gyfer cyllid yn y dyfodol ac ar gyfer cyllid ar unwaith?
Pan oedd yr Achos Busnes yn cael ei baratoi, ymgynghorwyd â dau Brosiect y Fargen Ddinesig arall y mae ganddynt raglenni Sgiliau a Thalent, sef Belfast a Chaeredin. Gwnaethant helpu i nodi meysydd allweddol nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr achos busnes. Mae'r PDSR hefyd yn gweithio'n rheolaidd gyda'r tair partneriaeth PDSR arall yng Nghymru.

Cadarnhaodd Ms Lewis fod y pandemig wedi cael effaith enfawr ar rai diwydiannau, a nododd yr effeithiwyd ar ddiwydiant twristiaeth a lletygarwch i raddau helaeth. Mae'r PDSR wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r rhai yr effeithiwyd arnynt ac yn ceisio eu cydweddu â chyfleoedd cyflogaeth amgen.
Holodd Aelodau sut y byddai gwelliannau i'r ardal yn cael eu mesur ac a roddir diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Craffu. Dywedodd Ms Lewis y rhoddir adroddiadau rheolaidd i'r Cyd-bwyllgor Craffu a'r Cyd-bwyllgor.

Holodd yr aelodau ym mha fformat y digwyddodd yr ymgysylltiad â'r sector preifat a sut y mesurwyd y bwlch sgiliau. Dywedodd Ms Lewis

y cafwyd ymgysylltiad ffurfiol drwy'r 9 grŵp clwstwr. Cynhaliwyd hefyd fforymau a oedd yn benodol i'r diwydiant h.y. peirianneg, er mwyn caniatáu i fwy o fanylion gael eu casglu o'r sectorau hynny. Cynhelir arolygon rheolaidd gyda'r busnesau i lywio'r cynllun cyflogaeth a sgiliau sy'n cael ei baratoi ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'r PDSR wedi bod yn adrodd yn chwarterol i Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig, felly mae'n hanfodol bod gan y diwydiannau lais i fynegi lle mae'r pandemig wedi effeithio arnynt a lle mae angen gwella sgiliau.

Trafododd yr aelodau'r adolygiad Gateway a gynhaliwyd a'r pedwar argymhelliad a amlinellwyd. Cydnabuwyd bod tri o'r argymhellion wedi'u bodloni'n llawn. Fodd bynnag, mae angen bodloni'r pedwerydd argymhelliad o hyd. Holodd yr aelodau pa gamau y mae angen eu cymryd i sicrhau bod y pedwerydd argymhelliad yn cael ei fodloni.

Holodd yr aelodau a fydd y rhanddeiliaid hefyd yn ymwneud â'r broses, gan gynnwys bod ar gael i gyfarfod â'r pwyllgor i siarad â nhw'n uniongyrchol am fod yn rhan o'r prosiect ac wrth i'r cerrig milltir allweddol gael eu cyflawni. Awgrymwyd y dylai’r pwyllgor siarad â'r Grŵp Datrys Sgiliau a fydd yn mesur effaith y prosiect a datblygiad sgiliau newydd o fewn y rhanbarth.
Diolchodd yr Aelodau i Jane Lewis am ddod i'r cyfarfod.

## 6. **ARCHWILIO MEWNOL**

Cynhaliwyd yr archwiliad gan Gyngor Sir Penfro. Canlyniad yr archwiliad oedd gradd sicrwydd sylweddol. Cafwyd pum argymhelliad o'r adroddiad archwilio.
Mae'r argymhelliad cyntaf yn ymwneud â chytundebau ffurfiol. Nodwyd bod y pedwar awdurdod wedi llofnodi Cytundeb y Cyd-bwyllgor. Nid yw Bwrdd Iechyd Bae Abertawe a Phrifysgol Abertawe wedi ymrwymo'n ffurfiol i'r Fargen Ddinesig drwy'r cytundeb hwn. Er nad oes unrhyw bryderon am eu hymrwymiad, mae angen ei ffurfioli.
Roedd yr ail argymhelliad yn ymwneud â strategaeth gwrth-dwyll a gwrth-lygru. Mae'r eitemau hyn wedi'u drafftio ond bydd angen iddynt gael eu cymeradwyo gan Fwrdd y Rhaglen a'r Cyd-bwyllgor.
Mae'r trydydd argymhelliad yn ymwneud â'r radd risg gweddilliol. Mae hyn bellach yn rhan o'r Gofrestr Risg Portffolio ac mae wedi'i rannu â phob prosiect a rhaglen.
Roedd y pedwerydd argymhelliad yn ymwneud ag adrodd ar gyflawniadau canlyniadau, allbynnau ac effeithiau. Mae hyn yn sicrhau bod targedau perfformiad yn cael eu monitro a'u bod yn cyflawni'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud ar lefel prosiectau a

phortffolio ac yn dangos eu bod yn ychwanegu gwerth. Bydd rhan o'r adroddiad hefyd yn cynnwys buddion cymunedol.
Mae'r pumed argymhelliad yn ymwneud â chyllid y sector preifat a sicrhau bod y risg yn cael ei lliniaru mewn perthynas â defnyddio arian o'r sector dros y 10-15 mlynedd nesaf.

Holodd yr aelodau am yr amserlen ar gyfer llofnodi'r cytundebau ffurfiol gan Fwrdd Iechyd Bae Abertawe a Phrifysgol Abertawe. Esboniwyd bod y diweddariad i'r Cytundeb Gweithio ar y Cyd yn rhan o ddiweddariad ehangach. Er mwyn i'r diweddariad gael ei roi ar waith, mae angen iddo gael ei gymeradwyo gan Fwrdd y Rhaglen ac wedyn gan y Cyd-bwyllgor.
Holodd yr aelodau a fyddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ar y pum argymhelliad yn cael ei hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu, a beth fyddai'r dyddiad cau ar gyfer yr adroddiad hwn. Dywedwyd wrth y rhain y byddai diweddariad yn cael ei ddarparu ym mis Medi ar gynnydd o ran argymhellion yr Archwiliad Mewnol.
Holodd yr aelodau am y rheolaeth ariannol a rhyddhau'r £54 miliwn i'r rhanbarthau. Er mwyn rhyddhau cyllid, mae angen sefydlu cytundeb ariannu rhwng y cyrff perthnasol. Mae hyn yn sicrhau y gellir dwyn y rhai sy'n gyfrifol am gyflawni'r prosiect i gyfrif. Mae rhai o'r cytundebau ariannu wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl i'w rhoi ar waith, ond ar hyn o bryd mae llif o gyllid.

Dywedodd swyddogion y bydd Llywodraeth y DU yn rhyddhau ei chyllid dros 10 mlynedd ac mae Llywodraeth Cymru yn rhyddhau ei chyllid dros 15 mlynedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i roi'r cyllid yn gynnar dros y 10 mlynedd gyntaf. Mae hyn i bob pwrpas yn golygu na fydd yn rhaid i'r Fargen Ddinesig fenthyca cymaint o arian. Fodd bynnag, nid yw'r union symiau wedi'u penderfynu eto.
Holodd yr aelodau beth sy'n digwydd os na fydd buddsoddiad y sector preifat yn cael ei wireddu. Cydnabuwyd bod cynlluniau wrth gefn wedi'u cynnwys ym mhob prosiect a bod y pedwar awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu cyllid priodol. Fodd bynnag, pe na bai'r buddsoddiad preifat llawn yn cael ei wireddu, yna byddai'r prosiect yn methu. Mae gweithdrefn rheoli newid ar waith a fyddai'n helpu i geisio lliniaru unrhyw risgiau y gellir eu rhagweld.
Eglurodd Mr Burnes sut y cyflwynir y ffigurau gwireddu buddion. Fodd bynnag, cydnabuwyd y gall rhai o'r ffigurau gymryd ychydig flynyddoedd i'w gwireddu'n llawn. Cânt eu hadrodd yn rheolaidd. Adolygir achosion busnes i sicrhau eu bod yn addas i'r diben o hyd a bod costau'n berthnasol ac yn briodol o hyd.

## 7. PROSES RHEOLI NEWID BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE

Trafododd Phil Ryder y Weithdrefn Rheoli Newid. Bydd y rhan fwyaf o'r newid yn cael ei gymeradwyo ar lefel prosiect. Lluniwyd y weithdrefn fel y gellir adrodd am newid i'r gwahanol bwyllgorau llywodraethu. Cyflwynodd Mr Ryder siart llif sy'n amlinellu gwahanol gamau'r broses y mae'n eu dilyn fel rhan o'r weithdrefn. Ar hyn o bryd, mae'r trothwyon ar gyfer gweithredu'r weithdrefn yn seiliedig ar y math o newid. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd trothwyon metrig yn cael eu rhoi ar waith. Gellir rhoi gwahanol lefelau o gymeradwyaeth i wahanol lefelau o newid.

Dywedwyd wrth yr aelodau mai'r unig adeg na fyddai'r Cyd-bwyllgor yn gallu cymeradwyo unrhyw newid a argymhellir fyddai lle mae'r newid yn effeithio ar fanteision cyffredinol y portffolio h.y. gwerth ychwanegol gros, swydd, cyllid y sector preifat.

Trafododd yr aelodau'r trothwy ar gyfer newid a fyddai'n effeithio ar y Fargen Ddinesig ehangach. Holodd yr aelodau a fyddai hyd yn oed newid bach yn cael effaith ar y Fargen gyfan. Dywedwyd wrth yr aelodau pe bai effaith ar y prif ffigurau, yna byddai angen i Lywodraeth Cymru/y DU gymeradwyo'r newid. Os yw'r newid yn effeithio ar unrhyw beth arall, gall y Cyd-bwyllgor ei gymeradwyo ar lefel ranbarthol.

Holodd yr aelodau pam na fyddai ailbroffilio prosiect yn dangos effaith ar nifer y swyddi a grëwyd. Holodd yr aelodau a oedd y ffigurau'n cael eu hystyried yn fanwl. Eglurwyd gan swyddogion, ar adeg y cais am newid, y byddai'n rhy gynnar i bennu lefel y newid i swyddi. Fodd bynnag, byddai'n cael ei adrodd cyn gynted ag y daw lefel y newid i fuddion i'r amlwg.

Esboniodd Mr Ryder y gwahaniaeth rhwng cais am newid trefn a newid buddion.

## 8. GWIREDDU BUDDION - PROFFILIAU BUDDION

Mae'r holl dempledi wedi'u drafftio ar gyfer y manteision ar lefel portffolio, sy'n cynnwys y gwerth ychwanegol gros, y swyddi a'r buddsoddiad. Mae'r rhain wedi'u hanfon at arweinwyr y prosiect a'r Uwch-berchnogion Cyfrifol er mwyn iddynt gytuno iddynt a chymeradwyo'r manteision ar lefel portffolio. Adroddir am fudd-

daliadau yn chwarterol. Llunnir adroddiad blynyddol hefyd ar y buddion a ddaw o fewn y cyfnod hwnnw o 12 mis.
Mae'r templedi ar gyfer y prosiect unigol a'r manteision ar lefel rhaglen yn cael eu llunio ar hyn o bryd.
Dangosodd Mr Ryder dempled wedi'i gwblhau ar gyfer gwireddu buddion o ran swyddi yn Yr Egin a thynnodd sylw at elfennau penodol pan fyddai buddion yn cael eu newid.
Holodd yr aelodau pryd y byddai pryderon yn cael eu codi pe bai'r swyddi dan y swm a ddisgwylid. Nododd swyddogion y byddai hyn yn cael ei godi yn yr Adolygiad Blynyddol gydag arweinwyr prosiectau a byddai strategaethau priodol yn cael eu rhoi ar waith.
Mynegodd yr aelodau bryderon am y derminoleg a ddefnyddiwyd i adlewyrchu'r buddion. Gofynnodd yr aelodau iddi fod yn gyson drwy gydol y mecanweithiau adrodd. Cytunodd Mr Ryder y byddai'n edrych ar hyn ac yn adrodd yn ôl yn ystod cyfarfod yn y dyfodol.
Gofynnodd yr aelodau beth oedd ystyr mecanwaith mesur. Byddai angen i arweinydd unigol y prosiect benderfynu ar hyn. Byddai'n ffordd o fesur nifer y swyddi a grëwyd.
Holodd yr aelodau a oedd y 102 o swyddi newydd a grëwyd ar gyfer Yr Egin yn swyddi newydd sbon. Cadarnhaodd Mr Ryder y crëwyd 102 o swyddi newydd o fewn y rhanbarth, ond nid oedd yn gallu cynghori a oeddent wedi cael eu dadleoli o ranbarth arall.

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE

Holodd yr aelodau am y ffigur buddsoddi, a fyddai'n cael ei drafod dan yr Adroddiad Monitro Ariannol.

Ni chafwyd unrhyw sylwadau pellach.

## 10. ADRODDIAD UCHAFBWYNTIAU BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE

Aeth Phil Ryder drwy'r prosiectau amrywiol a amlinellwyd yn yr Adroddiad Uchafbwyntiau.
Wrth ddatblygu prosiect Doc Penfro, roedd cryn dipyn o ffocws ar yr agwedd dreftadaeth. Holodd yr aelodau a oes unrhyw fesurau lliniaru y gellir eu hystyried yn y prosiect i ddiogelu ei agweddau treftadaeth hanesyddol. Cadarnhaodd swyddogion fod cynllunio bellach wedi'i gymeradwyo ar gyfer y prosiect ac os oes angen cael mynediad i'r safle hanesyddol, neu ei ailagor yn y dyfodol, cytunir y gellir gwneud hyn yn hawdd o fewn y cynllunio y cytunwyd arno.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau pellach.

## 11. ADRODDIAD MONITRO ARIANNOL

Aeth Richard Arnold drwy'r Adroddiad Monitro Ariannol. Dywedwyd wrth yr aelodau, oherwydd oedi o ran cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor, fod oedi cyn ystyried y sefyllfa alldro ar ddiwedd y flwyddyn. Darperir hwn i'r aelodau mewn cyfarfod diweddarach y Pwyllgor Craffu.
Rhoddwyd gwybodaeth i'r aelodau am y Gronfa Buddsoddi mewn Portffolio, sy'n cynnwys dyfarniadau grant y Fargen Ddinesig. Hyd yma maent wedi derbyn £54miliwn. Disgwylir derbyn y symiau nesaf ym mis Hydref 2021. Hyd yma mae £11.2miliwn wedi'i wario ar gyfer un prosiect. Mae cytundebau ariannu wedi'u llofnodi gyda phedwar prosiect yn ystod y tri mis diwethaf, felly disgwylir i gyllid pellach gael ei ryddhau'n fuan.
Sefydlwyd y Penawdau Telerau gwreiddiol i ysgogi buddsoddiad o £1.24 biliwn, ond mae'r rhagolwg portffolio 15 mlynedd presennol yn edrych ar sicrhau buddsoddiad o £1.147 biliwn. Mae hyn yn golygu amrywiant o 9%.
Cyfeiriodd Mr Arnold at y Cyd-bwyllgor sef swyddogaeth weinyddol y Fargen Ddinesig. Dywedwyd wrth yr aelodau na chollwyd unrhyw danwariant, ond caiff ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn y Fargen Ddinesig, i'w ddefnyddio yn y dyfodol.
Holodd yr aelodau am yr amrywiad ar y buddsoddiad cyhoeddus, a nododd yr adroddiad mai 16.5% oedd. Dywedodd Mr Arnold fod y rhan fwyaf o'r amrywiant yn ymwneud â phrosiect diwygiedig a gyflwynwyd gan Gastell-nedd Port Talbot.
Holodd yr aelodau ar ba bwynt y byddai unrhyw amrywiannau'n cael eu nodi i'r timau rheoli rhaglenni ac y mae'n ofynnol i unrhyw ymyriadau ddigwydd. Dywedodd Mr Ryder wrth yr aelodau fod y newid i'r buddsoddiad wedi'i gymeradwyo yn y bôn.
Gofynnodd yr aelodau a ellid dadansoddi manylion y buddsoddiad cyhoeddus ymhellach ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.
Rhoddwyd y gorau i'r cyfarfod a gohiriwyd unrhyw drafodaeth bellach oherwydd nad oedd y cworwm wedi ei fodloni.

## 12. COFNODION A BLAENRAGLEN WAITH CYD-BWYLLGOR DINAS-RANBARTH BAE ABERTAWE

Gohirir yr eitem hon tan gyfarfod nesaf Cyd-bwyllgor Craffu Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

13. **BLAENRAGLEN WAITH 2021/2022**

Gohirir yr eitem hon tan gyfarfod nesaf Cyd-bwyllgor Craffu Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

14. **EITEMAU BRYS**

Gohirir yr eitem hon tan gyfarfod nesaf Cyd-bwyllgor Craffu Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

**CADEIRYDD**